YSGOL BRYNREFAIL

Y BEIRNIAID

Beirniad y cystadlaethau llenyddol, cerdd a llefaru eleni yw Huw Foulkes. Yn enedigol o Fethel ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, mae'n wyneb cyfarwydd i ni i gyd yma. Yn dilyn ei lwyddiant yr ei TGAU, aeth i'r Chweched Dosbarth i astudio'r Gymraeg, Hanes a Cherddoriaeth. Roedd hefyd yn brif ddisgybl. Ymhlith rhai o'i uchafbwyntiau mae actio yn y gyfres boblogaidd Porc Peis Bach, ennill y fedal ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a sicrhau rhan yn y cynhyrchiad Cymraeg cyntaf o Les Miserables gyda Chwmni Theatr Genedlaethol Cymru. Aeth yn ei flaen i astudio'r Gymraeg a Newyddiaduraeth yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Bellach mae'n ohebydd newyddion gyda'r BBC. Ond y mae'r diwylliant Cymraeg yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'i fywyd - ef yw arweinydd Aelwyd y Waun Ddyfal.

Cyd-feirniad Huw yn y cystadlaethau Cerdd a Llefaru yw ~Trystan Ellis Morris. Yn wreiddiol o Ddeiniolen - un o hogia Llanbabs ydi o - mae o bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Yn gyn-ddisgybl o'r ysgol hon, graddiodd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin cyn mynd ati i ddilyn gyrfa yn y cyfryngau. Mae o'n wyneb cyfarwydd ar ein teledai yn gohebu o'n prifwyliau, ac ef yw un o wynebau blaenllaw CYW ar S4C. Bu'n aelod gweithgar iawn o fand Deiniolen dros y blynyddoedd - ac mae o'n drombonydd heb ei ail (meddai ei fam!!) Yn ystod ei amser hamdden mae o'n aelod o Gôr Dydd.